Cyfeirnod(au) y Papur

**6953/01**

# Edexcel GCE

## Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu Gymhwysol

Uned 3: Y Gweithiwr Gwybodaeth

Mai 2007

Senario

Agorwch y deunydd hwn yn syth. Ni ddylid ei ddosbarthu i ymgeiswyr fwy na thair wythnos waith cyn yr arholiad.

Bydd y disgrifiad ar y dudalen nesaf yn cael ei ddefnyddio fel y senario ar gyfer y fanyleb uchod, a chaiff ei ailddosbarthu gyda'r papur arholiad. Dylid defnyddio'r senario hwn ynghyd â'r model taenlen a gyflenwir gyda'r senario, at ddibenion paratoi ymgeiswyr ar gyfer yr arholiad. Ni ddylid mynd â'r deunydd hwn i mewn i'r arholiad.

Mae rhagor o fanylion yn yr Instructions for the Conduct of Examinations, sydd ar gael ar wefan Edexcel ar gyfer y cymhwyster a'r pwnc hwn.

**Ni fydd Edexcel yn derbyn unrhyw gais am ystyriaeth arbennig petai'r ymgeiswyr yn cael y senario anghywir ar gyfer yr arholiad maent yn ei sefyll.**

Rhif Log yr Argraffwr
N31101A

N 3 1 1 0 1 A

W850/R6953/57570 2/

*Trowch y dudalen*

Gellir cyhoeddi'r cyhoeddiad hwn yn unig yn unol â pholisi hawlfraint Edexcel Limited. ©2007 Edexcel Limited.

edexcel
advancing learning, changing lives

**Denim Daze – Rheoli Stoc**

Cadwyn lwyddiannus o siopau sy’n gwerthu dewis (*range*) eang o ddillad denim yw Denim Daze. Gall y siopau werthu dewis Denim Daze yn unig, sy’n cynnwys jîns i ddynion a menywod, a sgertiau, crysau, siacedi, gwasgodau, bagiau a hetiau denim. Mae’r dewis wedi’i anelu at bobl ifanc rhwng 14 a 29 oed. Mae enw da’r gadwyn yn tyfu ac, ar ôl hyrddiad cychwynnol pan agorodd y gadwyn gyntaf, mae gwerthiant wedi cynyddu’n raddol 2% y flwyddyn ers y flwyddyn 2000.

Lauren Chevre yw rheolwr y siop yn Birmingham. Mae hi wedi bod yn rheolwr yno ers iddi agor yn 2001, ar ôl treulio blwyddyn fel cynorthwyydd llawr siop yn y siop yn Lerpwl. Mae’r siop yn cyflogi 30 aelod o staff parhaol a 55 aelod o staff rhan-amser. O’r staff hyn, mae 20 o’r staff parhaol a phob un ond dau o’r staff rhan-amser yn gweithio ar lawr y siop fel cynorthwywyr gwerthu.

**Casgliad Newydd**

Mae gan Denim Daze ei set ei hun o ddylunwyr ac maent yn cynhyrchu set newydd o ddyluniadau o bryd i’w gilydd. Bob gwanwyn, haf a hydref, caiff casgliad newydd o ddillad ei gyflwyno. Er bod yr un eitemau o ddillad yn cael eu gwerthu yn ei hanfod, mae’r dylunwyr yn gwneud newidiadau cynnil, ac weithiau newidiadau nad ydynt mor gynnil, i ddyluniad yr eitemau i ystyried y tymhorau a ffasiynau newydd. Mae pob tymor yn para 17 wythnos. Bob tro y bydd tymor yn newid, caiff eitemau heb eu gwerthu eu dileu (*written off*) a’u dychwelyd i’r warws lle cânt eu dosbarthu i nifer o siopau annibynnol a’u gwerthu’n rhad. Caiff siopau Denim Daze wedyn eu stocio ag eitemau o’r dewis newydd. Bydd gwerthiant casgliad yr hydref yn dechrau eleni ar 1 Mehefin. Cyfrifoldeb Lauren yw sicrhau bod y swm cywir o stoc yn cael ei archebu o’r warws i fwyhau elw siop Birmingham.

**Rheoli Stoc yn Siop Birmingham**

Cafodd rheoli stoc ei wneud yn gyfrifiadurol yn ddiweddar. Caiff archebu stoc ei wneud yn awtomatig bellach. Bob dydd Gwener, mae’r prif gyfrifiadur yn y Pencadlys yn cael mynediad at y cyfrifiaduron ym mhob siop ac yn gwirio lefel stoc pob eitem. Bydd yr eitemau’n cael eu danfon deng niwrnod yn ddiweddarach ar ddydd Llun.

Os yw lefel y stoc wedi syrthio islaw gwerth penodol, yna caiff mwy o stoc o’r eitem honno ei archebu. Ar gyfer siop Birmingham, cyfrifoldeb Lauren yw gosod y gwerth hwn ynghyd â nifer yr eitemau i’w archebu pan gaiff archeb ei chreu. Yr enwau ar y gwerthoedd hyn yw ‘lefel ail-archebu’ a’r ‘nifer ail-archebu’ yn y drefn honno. I ddechrau, mae’r rhain wedi’u gosod i’r gwerthoedd yn nhabl 1 ond teimla Lauren y gellir gwella ar y rhain a gosod gwerthoedd newydd, a fyddai’n cynyddu proffidioldeb y siop. Mae hi wedi dechrau llunio model taenlen i’w helpu gyda’r penderfyniad hwn, ond roedd rhaid iddi ei adael yn anghyflawn yn sgil pwysau ei gwaith arall.

**Tabl 1**

| Rhif Adnabod Stoc | Disgrifiad | Lliw | Rhyw | Steil | Lefel Ailarchebu | Nifer Ailarchebu (Sypiau) | Nifer mewn swp |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| SG07143 | jîns dynion | tywyll | G | llac | 1500 | 20 | 100 |
| SG07151 | jîns dynion | maenolchedig | G | llac | 1500 | 20 | 100 |
| SG07159 | jîns dynion | tywyll | G | cysur | 1500 | 20 | 100 |
| SG07167 | jîns dynion | maenolchedig | G | cysur | 1500 | 20 | 100 |
| SG07175 | jîns menywod | tywyll | B | cysur | 1500 | 20 | 100 |
| SG07181 | jîns menywod | tywyll | B | gwaelod llydan | 1500 | 20 | 100 |
| SG07187 | jîns menywod | tywyll | B | tynn | 1500 | 20 | 100 |
| SG07193 | jîns menywod | maenolchedig | B | cysur | 1500 | 20 | 100 |
| SG07199 | jîns menywod | maenolchedig | B | gwaelod llydan | 1500 | 20 | 100 |
| SG07205 | jîns menywod | maenolchedig | B | tynn | 1500 | 20 | 100 |
| SG07211 | jîns menywod | llwyd | B | cysur | 1500 | 20 | 100 |
| SG07217 | jîns menywod | llwyd | B | gwaelod llydan | 1500 | 20 | 100 |
| SG07223 | jîns menywod | llwyd | B | tynn | 1500 | 20 | 100 |
| SG07229 | siaced dynion | denim | G | â leinin | 1500 | 20 | 100 |
| SG07235 | siaced dynion | denim | G | heb leinin | 1500 | 20 | 100 |
| SG07241 | bag menywod | denim | B | | 1500 | 20 | 200 |
| SG07242 | bag menywod | denim | B | | 1500 | 20 | 200 |
| SG07243 | het | denim | U | | 1500 | 20 | 200 |
| SG07244 | het | denim | U | | 1500 | 20 | 200 |
| SG07245 | gwasgod menywod | denim tywyll | B | | 1500 | 20 | 100 |
| SG07248 | gwasgod menywod | denim golau | B | | 1500 | 20 | 100 |
| SG07272 | cas ipod | denim | U | | 3000 | 20 | 300 |

**Disgrifiad o'r model**

Mae'r model y mae Lauren wedi dechrau arno yn cynnwys y taflenni gwaith hyn.

| **Taflen waith** | **Disgrifiad** |
|---|---|
| Stock Order Settings | Pan fydd y model yn gyflawn, dyma'r daflen waith lle y caiff y lefelau ail-archebu a'r niferoedd ail-archebu eu gosod. Mae adran grynhoi ar y top a phan fydd yr holl fformiwlâu wedi'u hychwanegu, bydd hon yn dangos y proffidioldeb gyda'r gosodiadau hyn. |
| Predicted Stock by Week | Pan fydd y model yn gyflawn, bydd y daflen waith hon yn cynnwys rhagfynegiad o faint o stoc a ddelir yn y siop yn ystod pob wythnos o'r tymor. |
| Predicted Sales by Week | Pan fydd y model yn gyflawn, bydd y daflen hon yn cynnwys rhagfynegiad o sawl un o bob eitem a allai gael eu gwerthu yn ystod pob wythnos o'r tymor. |
| Order Triggered | Bydd y daflen waith hon yn cynnwys a yw archeb wedi'i chreu ar gyfer pob eitem ai peidio yn ystod pob wythnos o'r tymor. |
| Deliveries by Week | Pan fydd y model yn gyflawn, bydd y daflen waith hon yn cyfrifo nifer pob eitem a gaiff ei ddanfon bob wythnos o'r tymor. Bydd yn cyfrifo hefyd gyfanswm gwerth yr archebion, a fydd yn cael eu defnyddio yng nghyfrifiad proffidioldeb y daflen waith 'Stock Order Settings'. |
| Sales Revenue | Pan fydd y model yn gyflawn, bydd y daflen waith hon yn cynnwys refeniw gwerthiant wedi'i gyfrifo ar gyfer y tymor. Bydd hwn yn cael ei ddefnyddio yn y cyfrifiad proffidioldeb. |

**Mae rhai celloedd yn y model yn cael eu diogelu â chyfrinair. Pe baech eisiau arbrofi gyda'r model, *edexcel* yw'r cyfrinair. Dylech sylweddoli os newidiwch gynnwys unrhyw gell a ddiogelir efallai na fydd y model yn gweithio.**